

CYNGOR GWYNEDD

CYLLIDEB 2023/24

Adran Cyllid
www.gwynedd.llyw.cymru



MYNEGAI

	Tudalen
Rhagair gan yr Aelod Cabinet Cyllid a'r Pennaeth Cyllid	1
Cyllideb Gweithwyr 2023/2024	2
Y Gyllideb Refeniw 20223/2024	
Crynodeb	3
Addysg	5
Cefnogaeth Gorfforaethol	23
Cyllid	26
Economi a Chymuned	28
Oedolion, Iechyd a Llesiant	36
Plant a Chefnogi Teuluoedd	43
Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd	47
Amgylchedd (Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Trafnidiaeth, Cefn Gwlad, Gwastraff ac Ailgylchu)	52
Tai ac Eiddo	56
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	60
Corfforaethol	62
Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru	64
Y Gyllideb Gyfalaf 2023/2024	65

CYLLIDEB CYNGOR GWYNEDD 2023/24

Rhagair Gan yr Aelod Cabinet Cyllid a'r Pennaeth Cyllid

Yn gyntaf, carwn ddiolch i'r holl staff perthnasol am y gwaith o lunio cyllideb 2023/24 Cyngor Gwynedd, ac i'r holl Aelodau gyfrannodd i'r broses. Rhoddwyd ystyriaeth i'r gyllideb ddrafft, gan gynnwys yr angen i ddarganfod arbedion fel mater o frys, gan fwyafrif aelodau'r Cyngor mewn sesiwn briffio sefyllfa ariannol a gynhaliwyd ar 26 Ionawr. Bu trafodaethau manwl pellach wedyn yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Cabinet a'r Cyngor Llawn wrth osod y gyllideb yma.

Yr amser yma llynedd, roeddem yn gosod cyllideb lle 'roedd modd clustnodi adnoddau i ymdrin â'r amrediad eang o bwysau sydd ar ein gwasanaethau, yn ogystal â rhoi swm darbodus o'r neilltu i fynd i'r afael â'r costau a cholled incwm oedd yn parhau yn sgil y pandemig Covid. Eleni, dim ond bidiau ariannol cwbl anorfod rydym wedi gallu eu hariannu.

Er bod y Cyngor wedi derbyn cynnydd grant Llywodraeth o 7% ar gyfer 2023/24, sy'n well na'r hyn roeddem wedi ei ddisgwyl yn wreiddiol, nid yw'r cynnydd yma yn ddigonol i gwrdd â chwyddiant, heb sôn am ymdrin â'r pwysau ychwanegol ar ein gwasanaethau. Wrth gwrs, mae Cyngor Gwynedd wedi wynebu sefyllfaoedd o orfod darganfod arbedion er mwyn gosod cyllideb gytbwys sawl tro yn y gorffennol. Yr hyn sydd yn wahanol eleni ydi'r cyflymder mae'r sefyllfa ariannol wedi newid a hynny'n bennaf oherwydd lefel chwyddiant digynsail.

Mae cyfanswm y Gofynion Gwario Ychwanegol sydd wedi eu hystyried yn y gyllideb yn £27.8 miliwn. Yn ogystal â symiau sylweddol i ymdrin â chwyddiant, yn gynwysedig yn hyn mae £5.7 miliwn sydd wedi ei neilltuo ar gyfer delio â phwysau ar wasanaethau, gyda £3 miliwn o hwn yn cael ei gyfeirio i Ddigartrefedd ac yn cael ei ariannu o'r cynnydd yn y Premiwm Treth Cyngor a benderfynwyd gan y Cyngor ar 1 Rhagfyr 2022. Fel nodir uchod, mae'r gyllideb yn neilltuo'r £2.7 miliwn arall ar gyfer 'bidiau' cwbl anorfod.

Ar ôl ystyried cynnydd yn y Grant Llywodraeth a'r Gofynion Gwario Ychwanegol, roedd bwlch gweddilliol o £95.2 miliwn, ac mae hwnnw'n cael ei lenwir drwy gyfuniad o Dreth Cyngor ac arbedion ychwanegol.

Penderfynodd y Cyngor ar 2 Mawrth 2023 y byddai'n cymeradwyo argymhelliad y Cabinet, gyda £5.2 miliwn o'r bwlch yn dod o gyfuniad o gynlluniau arbed newydd a chynlluniau arbed oedd eisoes wedi eu cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol. Mae hynny'n golygu fod bwlch gweddillol o ychydig dros £90 miliwn i'w lenwi o'r Dreth Cyngor, sy'n golygu cynnydd o 4.95% i aelwydydd unigol. Mae hynny'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £75.59 i eiddo mewn Band D, neu £1.45 yr wythnos.

Y cynnydd yn y Dreth Cyngor o 4.95% yw'r ail isaf yng Ngogledd Cymru. Nid yw byth yn hawdd cynyddu'r Dreth i'r fath raddau na chyflwyno arbedion newydd ond mae gwaith caled a pharodrwydd i gymryd penderfyniadau anodd dros nifer o flynyddoedd wedi rhoi Cyngor Gwynedd mewn sefyllfa arian gryf. Rydym eisoes wedi adnabod ystod o arbedion ar gyfer 2024/25, ac mae gwaith o asesu mwy wedi cael ei gomisiynu, gan ein bod yn gwybod y bydd ein setliad ni yn sylweddol is flwyddyn nesaf.

Yn gyffredinol, bu rhagdybiaethau darbodus wrth ystyried risgiau am grantiau penodol, chwyddiant, a lefelau incwm, tra rydym ni wedi ail-asesu'n ofalus ein gallu i gyflawni arbedion. Pan dderbyniodd gymeradwyaeth yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 2 Mawrth 2023, roedd y gyllideb ddilynol yn amcangyfrif teg o anghenion gwario ac incwm y Cyngor am 2023/24.

CYLLIDEB GWEITHWYR 2023/24

	Llawn Amser	Rhan Amser
Addysg		
- Athrawon	858	338
- Eraill	178	1,926
Cefnogaeth Gorfforaethol	104	42
Cyllid	204	20
Economi a Chymuned	109	189
Oedolion, Iechyd a Llesiant	362	815
Plant a Chefnogi Teuluoedd	209	163
Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd	416	38
Amgylchedd (Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Trafnidiaeth, Cefn Gwlad, Gwastraff ac Ailgylchu)	330	38
Tai ac Eiddo	135	65
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	29	10
Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru	227	2
Cwmni Byw'n Iach Cyf	82	95
Cyfanswm	<u>3,243</u>	<u>3,741</u>

Y GYLLIDEB REFENIW 2023/24

Mae'r tudalennau canlynol cynnwys gwariant y gwahanol adrannau yn 2023/24


CRYNODEB

	£'000
Gwariant Gros - Adrannau	541,554
Llai - Grantiau'r Llywodraeth, Cyfraniadau	148,688
- Incwm Arall	71,649
	321,217


GWARIANT YR ADRANNAU

	Gros £'000	%	Net £'000	%
Addysg	132,252	24.42	107,958	33.61
Cefnogaeth Gorfforaethol	8,443	1.56	7,516	2.34
Cyllid	11,733	2.17	7,723	2.40
Economi a Chymuned	36,151	6.68	5,487	1.71
Oedolion, Iechyd a Llesiant	95,642	17.66	70,785	22.04
Plant a Chefnogi Teuluoedd	30,981	5.72	21,491	6.69
Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd	32,979	6.09	17,302	5.39
Amgylchedd (Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Trafnidiaeth, Cefn Gwlad, Gwastraff ac Ailgylchu)	35,712	6.59	17,797	5.54
Tai ac Eiddo	20,606	3.80	11,223	3.49
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	3,122	0.58	2,670	0.83
Corfforaethol - Budd-daliadau	47,479	8.77	11,997	3.73
Corfforaethol - Eraill	35,244	6.51	33,272	10.36
Premiwm Treth Cyngor - Cyfraniad i Gronfa	6,000	1.11	6,000	1.87
Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru	45,210	8.35	(4)	0.00
	541,554	100.00	321,217	100.00

Gwariant Gros



Incwm



ADDYSG

CYLLIDEB UNIGOL YSGOLION

**Cyllideb
2023-24
£'000**

Cyllideb wedi ei ddatganoli i'r ysgolion. Rheolir gan Gyrrff Llywodraethwyr Ysgolion.
Caiff y gyllideb ei ddyrannu i'r ysgolion yn ôl fformiwla.

Ysgolion Cynradd -yn cynnwys Addysg
Gynradd Ysgolion Dilynol Bro Idris a Godre'r Berwyn
(ISB Uniongyrchol)

Gwariant	43,095
Incwm	(161)
Incwm - Ad-daliadau	(306)
	<u>42,629</u>

Ysgolion Cynradd		
Nifer o Ysgolion Cynradd	79	
+6 safle Cynradd Ysgol Dilynol	2	Ysgol Bro Idris / Ysgol Godre'r Berwyn
Nifer y Disgyblion (c.ll.a)	8,772	
Nifer yr Athrawon yn y Dyranriad	353	
Cymhareb Disgybl/Athro	24.85:1	
Nifer Athrawon		
Llawn Amser:	374	
Rhan Amser:	177	
Nifer Staff Cefnogol:		
Llawn Amser:	4	
Rhan Amser:	648	
Unedau Meithrin		

Ysgolion Uwchradd - yn cynnwys Addysg
Uwchradd Ysgolion Dilynol Bro Idris a Godre'r Berwyn
(ISB Uniongyrchol)

Gwariant	45,304
Incwm	(2,100)
Incwm Grant ôl 16	(4,118)
Incwm - Ad-daliadau	(245)
	<u>38,840</u>

Ysgolion Uwchradd		
Nifer o Ysgolion Uwchradd	12	
+ 2 safle Uwchradd Dilynol	2	Ysgol Bro Idris / Ysgol Godre'r Berwyn
Nifer y Disgyblion	6,686	(Heb gynnwys chweched dosbarth)
Nifer yr Athrawon yn y Dyranriad	388	
Cymhareb Disgybl/Athro	17.23:1	
Nifer Athrawon		
Llawn Amser:	411	
Rhan Amser:	155	
Nifer Staff Cefnogol:		
Llawn Amser:	86	
Rhan Amser:	231	

Ysgolion Arbennig **(ISB Uniongyrchol)**

Gwariant	5,083
Incwm	0
Incwm - Ad-daliadau	0
	<u>5,083</u>

Ysgolion Arbennig		
Nifer o Ysgolion	2	
Nifer o Leoedd	233	
Nifer yr Athrawon		
Llawn Amser:	28	
Rhan Amser:	5	
Nifer Staff Cefnogol:		
Llawn Amser:	3	
Rhan Amser:	98	

**CYFANSWM - CYLLIDEB UNIGOL YSGOLION
(ISB UNIONGYRCHOL)**

86,552

ADDYSG

ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH		Cyllideb 2023-24 £'000	
Uned Rheolaeth Addysg	Gwariant Incwm Incwm - Ad-daliadau	833 (72) (74) <hr/> 688	Cyllideb ar gyfer rheolaeth yr adran yn cynnwys y Pennaeth Adran, Uwch Reolwyr a Chymhorthydd Personol i'r Pennaeth Addysg. <i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i> Llawn Amser: 7 Rhan Amser: 0
Ymdeol Cynnar	Gwariant Incwm Incwm - Ad-daliadau	1,617 0 0 <hr/> 1,617	Cronfa ar gyfer costau ymdeol cynnar gwirfoddol hanesyddol athrawon er mwyn osgoi diswyddo gormodol.
Cytundebau meddalwedd, Capita, SIMS a Prosiect One	Gwariant Incwm Incwm - Ad-daliadau	180 0 0 <hr/> 180	Darpariaeth ar gyfer cytundebau systemau gwybodaeth graidd - meddalwedd systemau addysg.
Grŵp Strategol Cynradd (GYDCA) / Grŵp Cynllunio Strategol Uwchradd	Gwariant Incwm Incwm - Ad-daliadau	18 0 0 <hr/> 18	Darpariaeth ar gyfer galw cyfarfodydd strategol a fforymau'r gwasanaeth.
CYFANSWM - ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH		<hr/> 2,503	

ADDYSG

GWASANAETHAU ANSAWDD YSGOLION	Cyllideb 2023-24 £'000	
GWAS ANSAWDD YSGOLION - Canolfan Busnes Addysg	Gwariant 399 Incwm 0 Incwm - Ad-daliadau (283) <hr/> 116	Darpariaeth ar gyfer cefnogaeth rheolaeth effeithiol i ysgolion. <i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i> Llawn Amser: 3 Rhan Amser: 8
Hwb Siarter Iaith Gwynedd & Môn	Gwariant 65 Incwm (65) Incwm - Ad-daliadau 0 <hr/> 0	Darpariaeth ar gyfer un swydd llawn amser Cydlynnydd Siarter Iaith Gwynedd a Môn. <i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i> Llawn Amser: 1 Rhan Amser: 0
Siarter Iaith Uwchradd	Gwariant 63 Incwm 0 Incwm - Ad-daliadau 0 <hr/> 63	Darpariaeth ar gyfer Cydlynnydd Siarter Iaith Uwchradd Gwynedd. <i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i> Llawn Amser: 1 Rhan Amser: 0
Gwasanaethau Cerdd Ysgolion	Gwariant 288 Incwm (163) Incwm - Ad-daliadau 0 <hr/> 125	Darpariaeth tuag at ariannu Cwmni Cerdd William Mathias a cherddorfeydd sirol, Codi'r To a chronfa ar gyfer hyrwyddo gwaith y Gwasanaeth Cerdd.
Uned Moderneiddio Ysgolion	Gwariant 561 Incwm 0 Incwm - Ad-daliadau (58) <hr/> 503	Darpariaeth ar gyfer tîm sydd yn edrych ar Strategaeth Ysgolion y Sir. <i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i> Llawn Amser: 10 Rhan Amser: 0
Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar	Gwariant 20 Incwm 0 Incwm - Ad-daliadau 0 <hr/> 20	Darpariaeth ar gyfer swydd Uwch Reolwr rhan amser, ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Plant.

ADDYSG

		Cyllideb 2023-24 £'000	
Cylchoedd Meithrin -(Addysg 3 Oed 10 Awr Am Ddim)	Gwariant	649	Darpariaeth ar gyfer addysg feithrin rhan amser i blant yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed mewn sefydliadau heb fod yn ysgolion (cylchoedd meithrin a meithrinfeydd preifat).
	Incwm	(205)	Mae'r gyllideb yn cynnwys taliad blynyddol craidd i'r Mudiad Ysgolion Meithrin a'r PPA.
	Incwm - Ad-daliadau	0	<i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i>
		<u>444</u>	Lawn Amser: 0
			Rhan Amser: 1
Cyfraniad i Gyd-Bwyllgor - GwE	Gwariant	770	Cyfraniad yr Adran Addysg i'r GwE trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth -
	Incwm	(82)	net o'r Model Cenedlaethol.
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>688</u>	
Prosiect Addysg ac Hyfforddiant Ôl 16	Gwariant	198	Cynllun yn sefydlu a gweithredu Consortiwm Dysgu ôl-16 Gwynedd a Môn.
	Incwm	(198)	Ariennir trwy gyfraniadau partneriaid. Gwynedd, Môn, Grŵp Llandrillo Menai, a'r Ysgolion.
	Incwm - Ad-daliadau	0	<i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i>
		<u>0</u>	Lawn Amser: 2
			Rhan Amser: 0
Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion	Gwariant	89	Cyllideb ar gyfer prynu Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion, gan Wasanaeth Llyfrgell y Sir.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>89</u>	
Grant Datblygu Disgyblion (ISB Canolig)	Gwariant	2,788	Grant Llywodraeth Cymru i ysgolion wedi'i dargedu at helpu disgyblion o gefndir difreintiedig i gyflawni eu potensial ac i gyfrannu yn y ffordd orau bosibl at gymdeithas a'r economi.
	Incwm	(2,788)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>0</u>	
Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal	Gwariant	121	Cyllideb i dargedu plant mewn gofal i gyflawni eu potensial ac i gyfrannu yn y ffordd orau bosibl.
	Incwm	(60)	Lawn Amser: 2
	Incwm - Ad-daliadau	(18)	Rhan Amser: 0
		<u>43</u>	

ADDYSG

		Cyllideb 2023-24 £'000	
Grant Urddas Mislif yn yr Ysgol	Gwariant	91	Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer nwyddau hylendid i ferched mewn ysgolion.
	Incwm	(91)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>0</u>	
Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau	Gwariant	1,656	Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer helpu ysgolion i fodloni'r gofynion sydd wedi codi yn sgil y pandemig COVID-19.
	Incwm	(1,656)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>0</u>	
CYFANSWM - GWAS ANSAWDD YSGOLION		<u>2,091</u>	
GRANT GWELLA YSGOLION CONSORTIA RHANBARTHOL (RCSIG)			
Grant Gwella Addysg - (GGA) - Gwynedd	Gwariant - ISB	5,021	Grant penodol gan Lywodraeth Cymru a ddsbarthir drwy Consortia y GwE. Dangosir rhaniad Gwynedd yn unig yma. Pwrpas y grant yw i wella canlyniadau ar gyfer pob disgybl ac i gyflawni newidiadau addysgol Llywodraeth Cymru. Mae'r grant yn cynnwys gwariant ar y Cyfnod Sylfaen, Cefnogi y Strategaeth Gymraeg Mewn Addysg, Llythrennedd a Rhifau a Llwybrau Dysgu. Mae'n rhaid i 80% neu fwy or grant gael ei ddatganoli i ysgolion.
	Gwariant - Non ISB	510	
	Incwm	(4,984)	
		<u>547</u>	
Grant Gwella Addysg - (GGA) - Gwynedd	Gwariant	118	
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	(29)	
		<u>89</u>	
CYFANSWM - GRANT GWELLA ADDYSG		<u>636</u>	
CYFANSWM - GWASANAETHAU ANSAWDD YSGOLION		<u>2,727</u>	

Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-

Llawn Amser:	12
Rhan Amser:	6

ADDYSG

**Cyllideb
2023-24
£'000**

ISADEILEDD A GWASANAETHAU CEFNOGOL

CLUDIANT

Cludiant Ysgolion	Gwariant	6,143
	Incwm	(6)
	Incwm - Ad-daliadau	0
		<u>6,136</u>

Darpariaeth ar gyfer cyfrifoldeb i drefnu cludiant o'r cartref i'r ysgol / coleg yn unol â gofynion statudol a pholisïau cyfredol. Darperir cludiant drwy ddefnyddio contractau cludiant cyhoeddus a chontractau penodol gan ddefnyddio bysiau, bysiau mini, trenau, taccis a rhieni.

Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-

Lawn Amser:	0
Rhan Amser:	1

CYFANSWM - CLUDIANT

6,136

COSTAU GAN YR ADRAN ADDYSG AR RAN YSGOLION (TRAWS SECTOR)

CYNRADD, UWCHRADD, ARBENNIG A DILYNNOL

Llanw Canolog	Gwariant	35
	Incwm	0
	Incwm - Ad-daliadau	0
		<u>35</u>

Darpariaeth ar gyfer athrawon llanw oherwydd absenoldebau yn deillio o gyfarfodydd a drefnir gan yr Awdurdod, athrawon yn gweithredu ar Bwyllgorau Addysg, Gwasanaeth Rheithgor a chyfrifoldebau undebol.

Cynnal a Chadw ac Eiddo	Gwariant	1,132
	Incwm	(11)
	Incwm - Ad-daliadau	(8)
		<u>1,114</u>

Cyllideb ar gyfer cynnal a chadw adeiladau gan gynnwys trethi ar eiddo heb fod yn ysgol. Mae'r gyllideb hefyd yn darparu am incwm rhent i tai ysgolion sydd ym meddiant yr Adran.

Cyrsiau Disgyblion	Gwariant	65
	Incwm	0
	Incwm - Ad-daliadau	0
		<u>65</u>

Cyrsiau preswyl i ddisgyblion hŷn (yn bennaf).

Grantiau Cyffredinol	Gwariant	44
	Incwm	0
	Incwm - Ad-daliadau	0
		<u>44</u>

Cyfraniadau blynyddol i gyrff allanol sydd yn darparu cyngor neu wasanaeth i ysgolion yn benodol SNAP Cymru.

ADDYSG

		Cyllideb 2023-24 £'000	
Grantiau Dillad	Gwariant	33	Grantiau i rieni brynu gwisgoedd ysgol i ddisgyblion Uwchradd blynyddoedd 8,9,10 a 11 sydd yn cwrdd â'r meini prawf.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>33</u>	
Tanysgrifiadau a Thrwyddedau Ysgolion	Gwariant	70	Cytundeb rhwng yr Awdurdod a chyrrff allanol am drwyddedau/hawlfraint ac yn y blaen.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>70</u>	
Yswiriannau Ysgolion	Gwariant	657	Cost yswiriant ar gyfer sefydliadau addysgol, staff, llywodraethwyr, cerbydau ac arian.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>657</u>	
Cynradd - CLG's Canolog - Ysgolion	Gwariant	0	Incwm ad-daliadau gan Ysgolion ar gyfer costau canolog drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth er enghraifft - Gwasanaeth Rheoli Banc ac Adnoddau Dynol.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	(377)	
		<u>(377)</u>	
Grant ôl-16	Gwariant	0	Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Ôl 16 mewn ysgolion - elfen canolog.
	Incwm	(32)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>(32)</u>	
Arolygiadau Offer Chwaraeon	Gwariant	3	Cyllidebau Amrywiol.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	(1)	
		<u>2</u>	
CYFANSWM - COSTAU GAN YR ADRAN ADDYSG AR RAN YSGOLION (TRAWS SECTOR)		<u><u>1,611</u></u>	

ADDYSG

**Cyllideb
2023-24
£'000**

ISADEILEDD			
Uned Data a Mynediad Addysg	Gwariant	231	Darpariaeth ar y cyd gyda Chyngor Môn ar gyfer cydlynu a rheoli systemau craidd a dadansoddi gwybodaeth yr Adran yn ogystal â threfniadau mynediad plant i'r ysgolion. <i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i> Llawn Amser: 5 Rhan Amser: 0
	Incwm	(68)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>163</u>	
Uned Cyflogau / Contractau	Gwariant	163	Gwasanaeth cytundebau a chontractau athrawon a cymorthyddion. <i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i> Llawn Amser: 4 Rhan Amser: 0
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	(161)	
		<u>1</u>	
Hyfforddi Llywodraethwyr	Gwariant	97	Darpariaeth ar gyfer y rhaglen i hyfforddi llywodraethwyr. <i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i> Llawn Amser: 2 Rhan Amser: 0
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	(12)	
		<u>85</u>	
Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd (DBS) (ISB Canolig)	Gwariant	48	Cyllideb i sicrhau bod gan bob gweithiwr ysgol DBS cyfredol.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>48</u>	
Ysgolion Wedi Cau (ISB Canolig)	Gwariant	56	Arbedion sefydlu Ysgol Dilynol Bro Idris a Godre'r Berwyn, ynghyd ag arbedion cau ysgolion cynradd sydd yn ariannu cynnal safleoedd hyd nes y gwerthir. <i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i> Llawn Amser: 0 Rhan Amser: 8
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>56</u>	
Ymweliadau Ysgolion (Tramor)	Gwariant	21	Cost darparu adroddiadau arbenigol cyn i ysgolion ymweld â gwledydd tramor Gweithredir drwy gytundeb gyda Chyngor Conwy.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>21</u>	
Addysg Bellach - Grantiau Dewisol	Gwariant	20	Darpariaeth ar gyfer gwobrwyo grantiau dewisol i ddisgyblion addysg bellach.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>20</u>	

ADDYSG

		Cyllideb 2023-24 £'000	
Ysgoloriaeth Coleg Cymraeg	Gwariant	4	Cyfraniad yr Adran Addysg tuag at Ysgoloriaeth Coleg Cymraeg. Mae'r myfyrwyr llwyddiannus yn derbyn £1,000 am 3 mlynedd.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>4</u>	
Strategaeth Ddigidol Ysgolion - cyfraniad	Gwariant	79	Cyfraniad yr Adran Addysg at Strategaeth Ddigidol Ysgolion.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>79</u>	
Nawdd Gymunedol	Gwariant	16	Darpariaeth ar gyfer defnydd am ddim o adeiladau yr Adran i fudiadau Ieuenctid ynghyd â thalu goramser gofalwyr. Mae'r cytundeb yn cynnwys taliadau blynyddol i Ganolfan Cymdeithas y Parc a Chanolfan Brynchrug. Hefyd yn cynnwys Incwm gan Pwyllgor Rheoli Ysgolion Cymunedol am ad-daliad costau rhedeg y canolfannau.
	Incwm	(4)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>12</u>	
Grant GDD Mynediad (Grant Dillad)	Gwariant	412	Grant gan Llywodraeth Cymru i brynu gwisg ysgol ac offer eraill i deuluoedd ar incwm isel.
	Incwm	(412)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>0</u>	
Neuadd Chwaraeon Blaenau Ffestiniog (ISB Canolig)	Gwariant	84	Darpariaeth ar gyfer costau rhedeg Neuadd Chwaraeon Ysgol Y Moelwyn.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>84</u>	
Arian Wrth Gefn Ysgolion (ISB Canolig)	Gwariant	942	Cyllideb i gwrdd ag amgylchiadau penodol arbennig nas rhagwelwyd mewn ysgolion.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>942</u>	
Tal Trothwy Athrawon (ISB Canolig)	Gwariant	20	Darpariaeth ar gyfer athrawon cynradd yn symud i drothwy lefel uwch ym mis Medi. Mae'r cost ychwanegol yn cael ei ddatganoli i'r ysgol am y flwyddyn yn unig.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>20</u>	
CYFANSWM - ISADEILEDD		<u><u>1,536</u></u>	

ADDYSG

**Cyllideb
2023-24
£'000**

GWASANAETHAU ATODOL

Rheolaeth a Gweinyddiaeth Arlwyath a Glanhau

Gwariant	564
Incwm	0
Incwm - Ad-daliadau	(661)
	<u>(97)</u>

Arlwyath Ysgolion

Gwariant	8,562
Incwm	(3,184)
Incwm - Ad-daliadau	(5,378)
	<u>0</u>

Glanhau/Gofalu Ysgolion

Gwariant	2,731
Incwm	(45)
Incwm - Ad-daliadau	(2,686)
	<u>0</u>

Darpariaeth ar gyfer rheolaeth a gweinyddiaeth y gwasanaeth arlwyath a glanhau.

Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-

Llawn Amser:	6
Rhan Amser:	0

Darparu gwasanaeth arlwyath i ysgolion Gwynedd - darperir gwasanaeth ar gyfer y canlynol:

Ysgolion Cynradd	79
Ysgolion Uwchradd	10
Ysgol Dilynol	2
Ysgolion Arbennig	2

Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-

Llawn Amser:	0
Rhan Amser:	314

Gwasanaeth Glanhau a Gofalu - darperir gwasanaeth ar gyfer y canlynol:

Ysgolion Cynradd	81
Ysgolion Uwchradd	9
Ysgol Dilynol	2
Ysgolion Arbennig	2

Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-

Llawn Amser:	0
Rhan Amser:	294

ADDYSG

		Cyllideb 2023-24 £'000	
Brecwast Am Ddim a Clwb Gofal Cyn Ysgol (ISB Canolog)	Gwariant	778	Darpariaeth brecwast ar gyfer 76 ysgol cynradd y Sir yn cynnwys incwm gan rieni am ofal plant cyn clwb brecwast.
	Incwm	0	<i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i>
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser: 0
		<u>778</u>	Rhan Amser: 231
Gwasanaeth Llefrith	Gwariant	122	Darpariaeth llefrith i blant ysgolion cynradd. Ariennir gan Lywodraeth Cymru, grant Ewrop (RPA) ac Adran Iechyd Llywodraeth Ganolog.
	Incwm	(122)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>0</u>	
Blas Am Oes	Gwariant	51	Darpariaeth i godi safonau maeth y mae disgyblion yn ei fwyta.
	Incwm	0	<i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i>
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser: 1
		<u>51</u>	Rhan Amser: 0
Uned Iechyd a Diogelwch Ysgolion	Gwariant	54	Cefnogaeth Iechyd a Diogelwch i Ysgolion
	Incwm	0	<i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i>
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser: 1
		<u>54</u>	Rhan Amser: 0
Cynnal Tiroedd	Gwariant	7	Darpariaeth ar gyfer gwaith tu allan i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar diroedd ysgolion.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>7</u>	
CYFANSWM - GWASANAETHAU ATODOL		<u><u>793</u></u>	
CYFANSWM - ISADEILEDD A GWASANAETHAU CEFNOGOL		<u><u>10,076</u></u>	

ADDYSG

		Cyllideb 2023-24 £'000		
ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL, CYNHWYSIAD A LLES				
ADYaCH GWYNEDD A MÔN				
Anghenion Addysgol Ychwanegol - Rheolaeth	Gwariant	235	Rheolaeth y gwasanaeth ADYaCH	
	Incwm	(62)	<i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i>	
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser:	1
		<u>173</u>	Rhan Amser:	0
Gweinyddol ac Ansawdd	Gwariant	236	Swyddogion Gweinyddol ac Ansawdd ADYaCH	
	Incwm	(119)	<i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i>	
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser:	3
		<u>118</u>	Rhan Amser:	0
Swyddogion Ansawdd	Gwariant	293	Swyddogion Ansawdd ADYaCH	
	Incwm	(74)	<i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i>	
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser:	0
		<u>219</u>	Rhan Amser:	4
Uned Gweinyddol	Gwariant	371	Swyddogion Gweinyddol ADYaCH	
	Incwm	(133)	<i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i>	
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser:	10
		<u>238</u>	Rhan Amser:	2
Blynydoedd Cynnar	Gwariant	83	Swyddogion Blynydoedd Cynnar	
	Incwm	(42)	<i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i>	
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser:	0
		<u>41</u>	Rhan Amser:	1
Tim Ymddygiad a Swyddog Cynhwysiad	Gwariant	728	Darparu cefnogaeth i ddisgyblion bregus o fewn ysgolion prif lif y Sir.	
	Incwm	(301)	<i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i>	
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser:	7
		<u>427</u>	Rhan Amser:	17

ADDYSG

		Cyllideb 2023-24 £'000	
Gwasanaeth Cwnsela	Gwariant	272	Amcan y grant yw cael darpariaeth cwnsela ar gyfer pob disgybl ysgol, gan roi'r hyder iddynt y caiff eu hanghenion eu deall a'u datrys. <i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i> Llawn Amser: 0 Rhan Amser: 6
	Incwm	(109)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>163</u>	
Gwasanaeth Lles	Gwariant	494	Nod y Gwasanaeth yw galluogi plant a phobl ifanc i elwa'n llawn o'r ddarpariaeth addysgol a gyflwynir gan ysgolion neu 'fel arall'. <i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i> Llawn Amser: 2 Rhan Amser: 10
	Incwm	(199)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>295</u>	
CAMHS	Gwariant	16	Darpariaeth ar gyfer y gyllideb Iechyd Meddwl mewn partneriaeth a BCUHB.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>16</u>	
Gwasanaeth Seicoleg Addysg	Gwariant	601	Darpariaeth i hwyluso ymateb addas a rhesymol pobl ifanc sydd yn profi anawsterau dysgu ychwanegol. <i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i> Llawn Amser: 5 Rhan Amser: 4
	Incwm	(252)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>350</u>	
Cyfathrebu a Rhyngweithio	Gwariant	910	Darpariaeth ar gyfer Canolfannau Anhwylderau Iaith a Chanolfannau Cyfathrebu Cymdeithasol. <i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i> Llawn Amser: 7 Rhan Amser: 17
	Incwm	(364)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>546</u>	
Gwasanaeth Meddygol a Chorfforol	Gwariant	140	Darpariaeth yn ystyried goresgyn unrhyw rhwystr sy'n bodoli i ddisgybl gyda Nam Synhwyrddid gael mynediad llawn i'r cwricwlwm. <i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i> Llawn Amser: 2 Rhan Amser: 1
	Incwm	(56)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>84</u>	

ADDYSG

		Cyllideb 2023-24 £'000	
Gwasanaeth NAM Clyw	Gwariant	199	Darpariaeth yn ystyried goresgyn unrhyw rhwystr sy'n bodoli i ddisgybl gyda Nam Synhwyradd gael mynediad llawn i'r cwricwlwm.
	Incwm	(80)	<i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i>
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser: 2
		<u>119</u>	Rhan Amser: 2
Gwasanaeth NAM Golwg	Gwariant	211	Darpariaeth yn ystyried goresgyn unrhyw rhwystr sy'n bodoli i ddisgybl gyda Nam Synhwyradd gael mynediad llawn i'r cwricwlwm.
	Incwm	(85)	<i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i>
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser: 2
		<u>126</u>	Rhan Amser: 2
ADYaCh - Penodol a Amhenodol	Gwariant	357	Darpariaeth ar gyfer "Ymestyn Allan", Gwybyddiaeth a Dysgu yn cynnwys anawsterau rhifedd, llythrennedd a dyslecsia.
	Incwm	(80)	<i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i>
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser: 4
		<u>277</u>	Rhan Amser: 3
Therapyddion Iaith	Gwariant	183	Darpariaeth ar gyfer "Therapyddion Iaith".
	Incwm	(73)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>110</u>	
ADYaCh - Unedau ABC	Gwariant	455	Darpariaeth ar gyfer "Unedau ABC Gwynedd a Môn".
	Incwm	(136)	<i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i>
	Incwm - Ad-daliadau	(39)	Llawn Amser: 5
		<u>281</u>	Rhan Amser: 5
Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol	Gwariant	663	Grant i gefnogi'r darpariaeth i ddisgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol.
	Incwm	(663)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>0</u>	
CYFANSWM - ADYaCH GWYNEDD A MÔN		<u><u>3,583</u></u>	

ADDYSG

Cyllideb
2023-24
£'000

ADYaCH GWYNEDD YN UNIG

All-Sirol	Gwariant	1,105	Cyllideb ar gyfer cymorth ychwanegol i blant siroedd eraill ac i blant o Wynedd sydd yn mynychu ysgolion tu allan i'r ffin.
	Incwm	(100)	Gwariant ar ddisgyblion Gwynedd yn mynychu ysgolion y tu allan i Wynedd.
	Incwm - Ad-daliadau	<u>0</u>	Incwm o ddisgyblion yn mynychu ysgolion Gwynedd ond sy'n byw tu allan i Wynedd.
		<u>1,005</u>	
Adnoddau ADY - Cynradd	Gwariant	6	Darpariaeth ar gyfer adnoddau ADY y sector Gynradd.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	<u>0</u>	
		<u>6</u>	
Adnoddau ADY - Uwchradd	Gwariant	4	Darpariaeth ar gyfer adnoddau ADY y sector Uwchradd.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	<u>0</u>	
		<u>4</u>	
Costau Adeilad ADYaCh	Gwariant	7	Cyllideb ar gyfer cynnal a chadw adeiladau a threthi
	Incwm	0	(Hen Lyfrgell, Ffordd Arran, Dolgellau a Chanolfan Brynffynon).
	Incwm - Ad-daliadau	<u>0</u>	
		<u>7</u>	

ADDYSG

		Cyllideb 2023-24 £'000	
Saesneg fel Iaith Ychwanegol	Gwariant	98	Cyllideb ar gyfer disgyblion nad yw'n medru siarad Saesneg.
	Incwm	(98)	<i>Nifer o staff yn y gyllideb 2023/24:-</i>
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser: 3
		<u>(0)</u>	Rhan Amser: 2
Gwasanaeth Diogelu	Gwariant	54	Cyllideb i gefnogi Cylchoedd Meithrin gyda'r Cynllun Cyfeirio Blynyddoedd Cynnar.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>54</u>	
Cynllun Cyfeirio Blynyddoedd Cynnar	Gwariant	91	Cyllideb i gefnogi Cylchoedd Meithrin gyda'r Cynllun Cyfeirio Blynyddoedd Cynnar.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>91</u>	
Unedau Ymddygiad CA4	Gwariant	499	Cyfraniad i unedau ymddygiad disgyblion Cyfnod Allweddol 4 mewn ysgolion.
	Incwm	(205)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>294</u>	
Tîm Blyn. Cynnar Gwynedd	Gwariant	196	Cyfraniad i unedau ymddygiad disgyblion Cyfnod Allweddol 4 mewn ysgolion.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>196</u>	
CYFANSWM - ADYACH GWYNEDD YN UNIG		<u>1,658</u>	
CYFANSWM - ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL, CYNHWYSIAD A LLES		<u>5,240</u>	

ADDYSG

GWASANAETH IEUENCTID	Cyllideb 2023-24 £'000	
Rheolaeth Ieuenctid	Gwariant 81 Incwm 0 Incwm - Ad-daliadau 0 <hr/> 81	Cyllideb rheolaeth y gwasanaeth Ieuenctid. <i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i> Llawn Amser: 1 Rhan Amser: 0
Clybiau Ieuenctid	Gwariant 212 Incwm (19) Incwm - Ad-daliadau 0 <hr/> 194	Clybiau Ieuenctid sy'n cael eu darparu ar ran cyngorau cymuned a thref. <i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2023/24:-</i> Llawn Amser: 0 Rhan Amser: 1
Gwaith Ieuenctid Cymunedol	Gwariant 151 Incwm 0 Incwm - Ad-daliadau 0 <hr/> 151	Cyllideb i gynnal gweithgareddau ieuenctid mewn cymunedau. Llawn Amser: 2 Rhan Amser: 3
Cymorth Ieuenctid 11-19 Oed	Gwariant 218 Incwm 0 Incwm - Ad-daliadau 0 <hr/> 218	Gweithwyr Ieuenctid yn darparu gwaith ieuenctid, achrediadau a gweithgareddau mewn ysgolion a chymunedau. Llawn Amser: 5 Rhan Amser: 6
Cymorth Ieuenctid 16+	Gwariant 76 Incwm 0 Incwm - Ad-daliadau 0 <hr/> 76	Gweithwyr Ieuenctid yn rhoi cefnogaeth bersonol i bobl ifanc 16 oed throsodd gyda'u anghenion personol, emosiynol, cymdeithasol. Llawn Amser: 1 Rhan Amser: 1
Cwricwlwm A Hyfforddiant	Gwariant 139 Incwm 0 Incwm - Ad-daliadau 0 <hr/> 139	Cyllideb ar gyfer achrediadau, hyfforddiant pobl ifanc a gweithwyr ieuenctid. Llawn Amser: 2 Rhan Amser: 0
Grant Cymorth Ieuenctid	Gwariant 420 Incwm (419) Incwm - Ad-daliadau 0 <hr/> 1 <hr/> 860	Grant Llywodraeth Cymru i gefnogi'r darpariaeth o wasanaethau Ieuenctid. Llawn Amser: 9 Rhan Amser: 0
CYFANSWM - GWASANAETH IEUENCTID	860	

ADDYSG

Cyllideb
2023-24
£'000

EITEMAU MEMORANDWM

CRYNODEB GWASANAETH ADDYSG

CYFANSWM - CYLLIDEB UNIGOL YSGOLION	86,552
CYFANSWM - ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH	2,503
CYFANSWM - GWASANAETHAU ANSAWDD YSGOLION	2,727
CYFANSWM - ISADEILEDD A GWASANAETHAU CEFNOGOL	10,076
CYFANSWM - ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL, CYNHWYSIAD A LLES	5,240
CYFANSWM - GWASANAETH IEUENCTID	860
	<u>107,958</u>

CRYNODEB GWASANAETH ADDYSG

Cyfanswm Gwariant Gros	142,586
Cyfanswm Incwm	(24,294)
Cyfanswm Ad-daliadau	(10,334)
Gwariant Net	<u>107,958</u>

CRYNODEB GWASANAETH ADDYSG

Cyfanswm ISB Uniongyrchol	86,552
Cyfanswm ISB Canolig	1,966
Cyfanswm Gwariant heb fod yn ISB	19,440
Gwariant Net	<u>107,958</u>

CEFNOGAETH GORFFORAETHOL

		2023/24	
		£'000	
Rheolaeth Cefnogaeth Gorfforaethol	Gwariant Incwm	424 <u>(2)</u> <u>422</u>	Cefnogi gallu'r Cyngor i ddarparu'r gorau ar gyfer pobl Gwynedd trwy gyfuniad o wasanaethau arbenigol, cefnogol a rheng-flaen. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024: Llawn amser: 5
Cynllunio Argyfwng	Gwariant	<u>117</u> <u>117</u>	Rheoli a monitro'r gytundeb hefo'r Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng rhanbarthol.
Cyfathrebu ac Ymgysylltu	Gwariant	<u>470</u> <u>470</u>	Darparu gwybodaeth a chynnal deialog ddwy-ffordd hefo trigolion Gwynedd a staff y Cyngor. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024: Llawn amser: 7 Rhan Amser: 2
Ymchwil a Gwybodaeth Ymchwil a Gwybodaeth	Gwariant	<u>367</u> <u>367</u>	Datblygu gallu'r Cyngor i ddefnyddio gwybodaeth a thystiolaeth i ddod i gasgliadau dibynadwy a'r penderfyniadau gorau ar gyfer pobl Gwynedd, yn ogystal â chynorthwyo gwasanaethau'r Cyngor i reoli gwybodaeth a chynghori ar geisiadau am wybodaeth a dderbynnir gan y cyhoedd. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024: Llawn amser: 6 Rhan Amser: 1
Ymchwil a Gwybodaeth iGwynedd	Gwariant	<u>61</u> <u>61</u>	Darparu a datblygu system i greu, cadw a rhannu gwybodaeth electroneg yn effeithiol a diogel. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024: Llawn amser: 1
Democratiaeth ac Iaith Democratiaeth	Gwariant Incwm	2,412 <u>(57)</u> <u>2,354</u>	Cefnogi trefniadau democrataidd a galluogi Cynghorwyr i gyflawni gwaith ar gyfer pobl Gwynedd. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024: Llawn amser: 7 Rhan Amser: 3

CEFNOGAETH GORFFORAETHOL

**Cyllideb
2023/24
£'000**

Democratiaeth ac Iaith Cyfieithu ac Iaith	Gwariant Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill Incwm	776 (94) (286) <hr/> 395	Darparu gwasanaeth cyfieithu i'r Gymraeg a'r Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig ynghyd ag hybu ac hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024: Llawn amser: 11 Rhan Amser: 5
Caffael	Gwariant	<hr/> 286 <hr/> 286	Galluogi'r Cyngor i gael gwerth am arian a chadw'r budd yn lleol. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024: Llawn amser: 4
Gwasanaeth Ymhynghorol Adnoddau Dynol	Gwariant Incwm	728 (41) <hr/> 687	Cydweithio hefo gwasanaethau i sicrhau bod arferion arwain a rheoli a'r amodau gwaith cysylltiedig yn briodol ac yn cynorthwyo'r Cyngor i ddarparu'r gwasanaeth gorau. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024: Llawn amser: 10 Rhan Amser: 1
Gwasanaeth Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Llesiant	Gwariant Incwm	611 (96) <hr/> 514	Cynghori swyddogion, cynghorwyr a llywodraethwyr ysgolion i warchod iechyd, diogelwch a llesiant staff a phobl Gwynedd. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024: Llawn amser: 9 Rhan Amser: 2
Gwasanaeth Cefnogol	Gwariant Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill Incwm	872 (211) (19) <hr/> 643	Darparu cefnogaeth weinyddol cyffredinol ar gyfer holl wasanaethau'r Cyngor. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024: Llawn amser: 21 Rhan Amser: 2
Dysgu a Datblygu'r Sefydliad	Gwariant Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill Incwm	449 (54) (3) <hr/> 392	Darparu gwasanaeth ymgynghorol a chynnig cyfleon dysgu a datblygu i alluogi staff a chynghorwyr i gwrdd ag anghenion gan hefyd annog ac hyrwyddo diwylliant sy'n caniatáu i staff fod ar eu gorau. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024: Llawn amser: 6 Rhan Amser: 3

CEFNOGAETH GORFFORAETHOL

**Cyllideb
2023/24
£'000**

Cyswllt Cwsmer a Chofrestru Rheolaeth	Gwariant Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill Incwm	217 (52) (34) <hr style="width: 100%;"/> <u>131</u>	Y gyllideb gysylltiol wedi'w dosrannu dros y tri phennawd perthnasol Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024: Llawn Amser: 5
Cyswllt Cwsmer a Chofrestru Siop Gwynedd	Gwariant	<hr style="width: 100%;"/> <u>411</u> <hr style="width: 100%;"/> <u>411</u>	Gweithredu fel siop un stop a derbynfa i'r cyhoedd yn Nolgellau, Pwllheli a Chaernarfon. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024: Llawn amser: 7 Rhan Amser: 9
Cyswllt Cwsmer a Chofrestru Galw Gwynedd	Gwariant	<hr style="width: 100%;"/> <u>278</u> <hr style="width: 100%;"/> <u>278</u>	Darparu gwasanaeth ymateb i alwadau ffôn, negeseuon e-byst a cheisiadau. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024: Llawn amser: 2 Rhan Amser: 8
Cyswllt Cwsmer a Chofrestru Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau	Gwariant Incwm	329 (344) <hr style="width: 100%;"/> <u>(15)</u>	Darparu gwasanaeth cofrestru priodasau, genedigaethau a marwolaethau. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024: Llawn amser: 3 Rhan Amser: 6
CYFANSWM NET CEFNOGAETH GORFFORAETHOL		<hr style="width: 100%;"/> <u><u>7,516</u></u>	

EITEMAU MEMORANDWM

CRYNODEB CEFNOGAETH GORFFORAETHOL	
Cyfanswm Gwariant	8,809
Cyfanswm Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill	(411)
Cyfanswm Incwm	(882)
Gwariant Net	<hr style="width: 100%;"/> <u><u>7,516</u></u>

CYLLID

Cyllideb 2023/24 £'000

Cyllid	Gwariant Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill Incwm	5,050 (289) (1,573) <u>3,188</u>	Darparu gwasanaeth cyllid cynhwysfawr i'r Cyngor, yn benodol - rheolaeth ariannol, cyfrifeg, prosesu taliadau a chyflogau, incwm, archwilio mewnol, yswiriant a rheoli risg a phensiynau. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024: Llawn amser: 93 Rhan Amser: 7
Hel Trethi a Gweinyddu Budd-daliadau	Gwariant Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill Incwm	2,116 (31) (1,083) <u>1,002</u>	Gweinyddu Treth y Cyngor ac, ar sail Asiantaeth, y Dreth ar Fusnes a Budd-daliadau (Tai a Threth y Cyngor). Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024: Llawn amser: 40 Rhan Amser: 11
Technoleg Gwybodaeth Corfforaethol	Gwariant Incwm	1,289 (47) <u>1,242</u>	Cytundebau meddalwedd a caledwedd corfforaethol. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024: Llawn amser: 1
Technoleg Gwybodaeth Rheolaeth Rhaglen	Gwariant Incwm	274 (55) <u>219</u>	Darparu cefnogaeth i'r adrannau ar gyfer diwallu eu hanghenion TG, gan gynnwys archebu cyfarpar a deunyddiau TG, gweithredu a monitro cytundebau a dadansoddi anghenion. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024: Llawn amser: 7 Rhan Amser: 1
Technoleg Gwybodaeth Datblygu	Gwariant Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill Incwm	819 (11) (68) <u>740</u>	Darparu oddeutu 160 system sydd wedi eu datblygu o amgylch anghenion pwrpasol y defnyddiwr, gan gynnwys systemau sy'n cael eu defnyddio gan yr adrannau i wasanaethu'r cyhoedd, rhyngwynebau uniongyrchol i'r cyhoedd a hunan-wasanaeth i staff. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024: Llawn amser: 16 Rhan Amser: 1
Technoleg Gwybodaeth Isadeiledd	Gwariant Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill Incwm	1,232 (261) (42) <u>929</u>	Cefnogi seiliau cadarn, gan ymledu i 300 adeilad, 1,400 o bwyntiau mynediad di-wifr a 1,800 o gysylltiadau ffôn ac yn cefnogi'r holl systemau yn ein canolfan data. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024: Llawn amser: 13

CYLLID

**Cyllideb
2023/24
£'000**

Technoleg Gwybodaeth Gwasanaeth Cefnogol	Gwariant Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill Incwm	717 (38) (276) <u>403</u>	Gwyneb y gwasanaeth TG yn cefnogi 2,350 o ddefnyddwyr ac yn diwallu tua 20,000 cais am wasanaeth gan gynnwys darparu 450 cyfrifiadur newydd bob blwyddyn a 1,780 o ffonau symudol a chyfrifiaduron llechen. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024: Llawn amser: 17
Technoleg Gwybodaeth Gwasanaeth Digidol Ysgolion	Gwariant Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill	699 (699) <u>0</u>	Arwain, cefnogi a chydweithio â'n ysgolion i gynnal addysgu digidol o'r ansawdd uchaf a sichrau'r cyfleon gorau i ddisgyblion Gwynedd. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024: Llawn amser: 17
CYFANSWM NET CYLLID		<u><u>7,723</u></u>	

EITEMAU MEMORANDWM

CRYNODEB CYLLID

Cyfanswm Gwariant	12,195
Cyfanswm Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill	(1,375)
Cyfanswm Incwm	(3,097)
Gwariant Net	<u><u>7,723</u></u>

ECONOMI A CHYMUNED

**Cyllideb
2023/24
£'000**

RHEOLAETH YR ADRAN

Rheolaeth yr Adran	Gwariant	399
	Incwm	0
	Incwm Ad-daliadau	0
		<u>399</u>

Bwriad yr Adran Economi a Chymuned yw darparu gwasanaeth o'r ansawdd gorau fyddai'n cyfrannu tuag at greu cymunedau cynaliadwy gydag economi ffyniannus ac amrywiaeth o gyfleoedd gwaith.

Nifer o staff yng nghyllideb 2023/24:

Llawn amser:	3
Rhan amser:	2

CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN GOGLEDD CYMRU

Rheolaeth yr Adran	Gwariant	24,182
	Incwm	(24,182)
	Incwm Ad-daliadau	0
		<u>0</u>

Gwasanaeth yn gyfrifol am reoli a gweinyddu Cronfa Ffyniant Gyffredin Y DU (UKSPF) yng Ngogledd Cymru ar ran chwe sir y Rhanbarth.

Nifer o staff yng nghyllideb 2023/24:

Llawn amser:	5
Rhan amser:	0

GWASNAETH RHAGLENNI ADFYWIO

Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio	Gwariant	406
	Incwm	(108)
	Incwm Ad-daliadau	(142)
		<u>156</u>

Gwasanaeth yn gyfrifol am reoli a datblygu prif brosiectau adfywio refeniw a chyfalaf yr Adran, gan gynnwys cynlluniau i dargedu cronfeydd ariannu gan sefydliadau megis y Llywodraeth, y Cynulliad ac Ewrop. Mae'r tîm yn monitro cynnydd a pherfformiad prosiectau adfywio yr Adran.

Nifer o staff yng nghyllideb 2023/24:

Llawn amser:	6
Rhan amser:	1

ECONOMI A CHYMUNED

**Cyllideb
2023/24
£'000**

GWASNAETH CEFNOGI CYMUNEDAU

Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau	Gwariant	1,091
	Incwm	(713)
	Incwm Ad-daliadau	(80)
		<u><u>298</u></u>

Gweithgareddau i gynllunio, datblygu a gweithredu cyfres o raglenni a phrosiectau adfywio byddai'n manteisio ar gyfleoedd ac yn ymateb i anghenion lleol gan alluogi cymunedau Gwynedd i chwarae rôl flaenllaw yn y broses adfywio. Mae gwaith y Gwasanaeth ar gyfer adfywio cymunedol yn cynnwys rhwydwaith swyddogion bro, Cist Gwynedd a chymunedau ar waith.

Nifer o staff yng nghyllideb 2023/24:

Llawm amser: 6
Rhan amser: 1

GWASNAETH MORWROL

Gwasanaeth Morwrol	Gwariant	1,465
	Incwm	(1,007)
	Incwm Ad-daliadau	0
		<u><u>458</u></u>

Darparu gwasanaeth morwrol er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r amgylchedd naturiol gan bobl leol ac ymwelwyr, rheoli yr harborau.

Sicrhau rheolaeth gadarn yn Doc Fictoria gan ymgymrwyr allanol.

Ni chynhwyswyd eu staff hwy yma.

Nifer o staff yng nghyllideb 2023/24:

Llawm amser: 12
Rhan amser: 48

GWASANAETH HAFAN A HARBWR PWLLHELI

Gwasanaeth Hafan a Harbwr Pwllheli	Gwariant	1,185
	Incwm	(1,838)
	Incwm Ad-daliadau	0
		<u><u>(653)</u></u>

Gwasanaeth gyda chyfrifoldeb am reolaeth Hafan a harbwr Pwllheli.

Nifer o staff yng nghyllideb 2023/24:

Llawm amser: 10
Rhan amser: 0

ECONOMI A CHYMUNED

**Cyllideb
2023/24
£'000**

GWASANAETH RHEOLI ADNODDAU HAMDDEN

Parc Padarn	Gwariant	289	Darpariaeth am reoli'r cyfleusterau a holl diroedd sydd ar gael ym Mharc Gwledig Padarn. Mae'r safle yn cynnwys Gilfach Ddu, Amgueddfa Ysbyty Chwarel, Y Glyn, Allt Ddu, Lon Las Peris, Cae'r Ddol, Coed Dinorwig a Llyn Padarn. <i>Nifer o staff yng nghyllideb 2023/24:</i> Llawn amser: 3 Rhan amser: 2
	Incwm	(343)	
	Incwm Ad-daliadau	0	
		<u>(53)</u>	
Parc Glynllifon	Gwariant	201	Darpariaeth am reoli'r cyfleusterau sydd ar gael ym Mharc Glynllifon. Mae Gerddi Gradd 1 ar y safle ac mae Unedau Crefft ar gyfer crefftwyr lleol ar y safle. Mae'r gyllideb yn cynnwys Grant SMS Partneriaeth Coedlan sydd yn cynnwys 1 swydd llawn amser. <i>Nifer o staff yng nghyllideb 2023/24:</i> Llawn amser: 3 Rhan amser: 1
	Incwm	(138)	
	Incwm Ad-daliadau	0	
		<u>62</u>	
Cyfleusterau Hamdden	Gwariant	2,463	Cyllideb ar gyfer cyfraniad yr Adran i Gwmni Byw'n Iach Cyf yn ogystal â chyllideb ar gyfer Cynnal a Chadw a chostau ynni y Canolfannau Hamdden. Cynnwys cyllideb Clwb Bocsio Caernarfon. <i>Nifer o staff yng nghyllideb 2023/24:</i> Llawn amser: 1 Rhan amser: 0
	Incwm	(599)	
	Incwm ad-daliadau	0	
		<u>1,864</u>	
	Cyfanswm	<u>1,873</u>	

ECONOMI A CHYMUNED

**Cyllideb
2023/24
£'000**

PARTNERIAETH CHWARAEON GOGLEDD CYMRU

Rhaglenni Chwaraeon GC	Gwariant	217
	Incwm	(216)
	Incwm ad-daliadau	0
		<u>1</u>

Cyllideb rheolaethol y Bartneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru.

Nifer o staff yng nghyllideb 2023/24:

Llawn amser: 2

GWASANAETH PARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol	Gwariant	171
	Incwm	(171)
	Incwm Ad-daliadau	0
		<u>0</u>

Cyfrifoldeb am y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol sy'n dylanwadu ar ddarpariaeth ôl-16 yn seiliedig ar wybodaeth y farchnad lafur a chanfyddiadau cyflogwyr.

Nifer o staff yng nghyllideb 2023/24:

Llawn amser: 2

Rhan amser: 0

ECONOMI A CHYMUNED

**Cyllideb
2023/24
£'000**

GWASANAETH RHAGLENNI DATBLYGU ECONOMAIDD

Rhaglenni Datblygu Economaidd	Gwariant	771
	Incwm	(506)
	Incwm Ad-daliadau	(68)
		<u>197</u>
Cefnogi Busnes	Gwariant	159
	Incwm	(12)
	Incwm Ad-daliadau	(381)
		<u>(234)</u>
	Cyfanswm	<u>(37)</u>

Gwasanaeth yn gyfrifol am ddatblygu a chyflawni strategaeth economaidd i'r sir. Mae'r tîm yn adnabod anghenion busnesau a thrigolion Gwynedd, yn datblygu cynlluniau mewn ymateb ac yn targedu arian i'w cyflawni; yn arbennig o fewn y meysydd datblygu gwledig, swyddi gwerth uwch a chyflogadwyedd.

Nifer o staff yng nghyllideb 2023/24:

Llawn amser: 24
Rhan amser: 3

Darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ymarferol i fusnesau i'w helpu i sefydlu, cystadlu a thyfu er mwyn creu gwaith i drigolion Gwynedd. Yn gyfrifol am diroedd, cyflogaeth ac unedau gwaith y Cyngor gan gynnwys canolfannau menter InTec a MenTec.

Nifer o staff yng nghyllideb 2023/24:

Llawn amser: 2
Rhan amser: 1

GWASANAETH TWRISTIAETH, MARCHNATA A DIGWYDDIADAU

Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau	Gwariant	293
	Incwm	0
	Incwm Ad-daliadau	0
		<u>293</u>

Hybu Economi Ymweld Cynaliadwy yn ein hardal.

Nifer o staff yng nghyllideb 2023/24:

Llawn amser: 5
Rhan amser: 0

ECONOMI A CHYMUNED

**Cyllideb
2023/24
£'000**

GWASANAETH LLYFRGELLOEDD GWYNEDD

Mwy 'Na Llyfrau	Gwariant	2,135
	Incwm	(276)
	Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill	<u>(103)</u>
		<u><u>1,756</u></u>

Darpariaeth ar gyfer:-

9 Llyfrgell Dalgylch -

Caernarfon, Bangor, Porthmadog, Pwllheli, Dolgellau, Blaenau Ffestiniog, Tywyn, Abermaw, Y Bala.

4 Llyfrgell Gymunedol -

Bethesda, Penygroes, Nefyn, Criccieth.

Gwasanaeth Cludo i'r Cartref ar Gais

Gwasanaeth Llyfrgell misol i'r Cartref – Arfon/Dwyfor a Meirionnydd

2 Dolen Clicio a Chasglu

Gwasanaeth Llyfrgell Ysgolion.

Hefyd mae mynediad i'r gwasanaeth drwy gatalog ar-lein, mynediad at Wi-fi, cyfrifiaduron cyhoeddus a chyfleusterau sganio a llungopïo.

Nifer o staff yng nghyllideb 2023/24:

Llawn amser:	13
Rhan amser parhaol:	41
Rhan amser achlysurol:	59

ECONOMI A CHYMUNED

		Cyllideb 2023/24 £'000	
GWASANAETH AMGUEDDFEYDD A'R CELFYDDYDAU			
Gwasanaeth Amgueddfeydd	Gwariant	440	Cyfrifoldeb am gynnal a datblygu yr Amgueddfeydd Canlynol - Storiel, Amgueddfa Lloyd George / Highgate, a sawl fân safle arall yn cynnwys Tŷ Gwyn, Tŷ Crwn a Thomen y Bala.
	Incwm	(220)	
	Incwm Ad-daliadau	(82)	
		<u>138</u>	
<i>Nifer o staff yng nghyllideb 2023/24:</i>			
		Llawn amser:	4
		Rhan amser:	9
Gwasanaeth Oriellau	Gwariant	84	Mae gan yr Awdurdod yr Oriellau canlynol yng Ngwynedd - Storiel (gyda chaffi), Oriel Canolfan Maenofferen. Amcan y gwasanaeth yw annog diddordeb yn, a gwell dealltwriaeth o, gelfyddydau gwladol, crefftau a dylunio.
	Incwm	0	
	Incwm Ad-daliadau	0	
		<u>84</u>	
<i>Nifer o staff yng nghyllideb 2023/24:</i>			
		Llawn amser:	0
		Rhan amser:	3
Gwasanaeth Theatrau a Sinemâu	Gwariant	429	Cyllideb ar gyfer costau Theatr y Ddraig, Sinema Tywyn, Neuadd Dwyfor a Neuadd Ogwen. Hefyd darpariaeth i gefnogi Neuadd Buddug.
	Incwm	(286)	
	Incwm Ad-daliadau	(17)	
		<u>126</u>	
<i>Nifer o staff yng nghyllideb 2023/24:</i>			
		Llawn amser:	3
		Rhan amser:	9
Gwasanaeth Celfyddydau	Gwariant	199	Cyllideb ar gyfer cynnal gwasanaeth celfyddydau y Sir sydd yn cynnwys: <i>Nifer o staff yng nghyllideb 2023/24:</i>
	Incwm	(5)	
	Incwm Ad-daliadau	0	
		<u>194</u>	
		Llawn amser:	0
		Rhan amser:	2
- Grantiau i fudiadau sydd yn ymateb i nod ac amcanion Strategaeth Celfyddydau Gwynedd.			
- Gweithgareddau celf cymunedol.			
Cyfanswm		<u><u>542</u></u>	

ECONOMI A CHYMUNED

		Cyllideb 2023/24 £'000	
GWASANAETH ARCHIFAU GWYNEDD			
Gwasanaeth Archifau	Gwariant	484	Cyfrifoldeb am warchod etifeddiaeth archifol y sir drwy gasglu, cadw, rhoi mynediad a hyrwyddo defnydd o'r archif ynghyd â chynnal Gwasanaeth Addysg i Ysgolion. <i>Nifer o staff yng nghyllideb 2023/24:</i> Llawn amser: 5 Rhan amser: 7
	Incwm	(44)	
	Incwm Gwas. Ysgolion	(39)	
		<u>401</u>	
CYFANSWM NET - ECONOMI A CHYMUNED		<u>5,487</u>	

CRYNODEB ECONOMI A CHYMUNED

Cyfanswm Gwariant	37,063
Cyfanswm Incwm	(30,664)
Cyfanswm Incwm Ad-daliadau	(912)
Gwariant Net	5,487

OEDOLION, IECHYD A LLESIAINT

		Cyllideb 2023/24 £'000	
RHEOLAETH			
Uned y Pennaeth	Gwariant	169	Pennaeth yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'i staff cefnogol.
		<u>169</u>	Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024 : Llawn amser : 2
GWASANAETH BUSNES			
Uned Rheolaeth Busnes	Gwariant	86	Costau rheoli'r Gwasanaeth Busnes.
			Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024 : Llawn amser : 1
Uned Datblygu a Rheolaeth Categori	Gwariant	406	Datblygu a monitro cytundebau a comisiynu gwasanaethau.
			Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024 : Llawn amser : 7 Rhan amser : 2
Uned Systemau Perfformiad a Data	Gwariant	450	Rheoli, datblygu a chefnogi systemau ynghyd â llunio a gweithredu Strategaeth TGCh yr Adran. Hefyd yn Darparu Ystadegau'r Adran.
	Incwm	(46)	
	Cyfraniad o reserfau	(36)	Ariennir yn rhannol gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chynllun Strategol Gwynedd.
		<u>368</u>	Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024 : Llawn amser : 5 Rhan amser : 1
Uned Incwm a Lles	Gwariant	500	Aseu cyfraniadau unigolion at eu gofal, casglu incwm am wasanaethau a chynorthwyo cleientau ynglŷn â'u hawliau ym maes budd-daliadau.
			Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024 : Llawn amser : 9 Rhan amser : 3
Uned Cefnogi'r Gweithlu	Gwariant	1,043	Darparu ystod eang o gefnogaeth fusnes i'r Adrannau Oedolion a Plant megis talu darparwyr, derbynfydd, rheoli gwybodaeth, gofal cwsmer, rheoli asedau cleientau a chefnogaeth gweinyddol i'r timau gwaith cymdeithasol. Cesglir ffi am reoli asedau cleientau.
	Incwm	(165)	
		<u>878</u>	Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024 : Llawn amser : 21 Rhan amser : 11
Prosiectau Trawsfurfio	Gwariant	142	Rheoli a gweithredu prosiectau 'Trawsfurfio Gwasanaethau Oedolion yng Ngwynedd'.
	Cyfraniad o reserfau	(27)	Ariennir yn rhannol gan Gynllun Strategol y Cyngor.
		<u>115</u>	
Uned Datblygu Gweithlu	Gwariant	463	Trefnu a darparu hyfforddiant i holl weithwyr yr Adran a gweithlu Gofal yn gyffredinol.
	Incwm	(347)	Ariennir yn rhannol gan grant Llywodraeth Cymru.
		<u>116</u>	Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024 : Llawn amser : 7 Rhan amser : 4
CYFANSWM GWASANAETH BUSNES		<u>2,469</u>	

OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

		Cyllideb 2023/24 £'000	
GWASANAETHAU CANOLOG ERAILL			
Uned Diogelu a Sierwydd Ansawdd	Gwariant	399	Datblygu gwasanaeth i ddiogelu ac i sicrhau ansawdd gofal. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024 : Llawn amser : 7 Rhan amser : 1
Gwasanaeth Ysbyty	Gwariant	46	Darparu gwasanaeth gwaith cymdeithasol yn Ysbyty Gwynedd. Ariennir yn rhannol gan y Bwrdd Iechyd. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024 : Llawn amser : 1
Cynllun Teleofal	Gwariant Incwm	524 <u>(370)</u> <u>154</u>	Darparu gwasanaethau teleofal a thechnoleg yn y cartref. Ariennir yn rhannol gan y Bwrdd Iechyd a thrwy gyfraniadau defnyddwyr. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024 : Llawn amser : 1
Uned Llesiant	Gwariant	105	Datblygu gwasanaethau ataliol ar gyfer y maes oedolion i gyd fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024 : Llawn amser : 2
Gwasanaeth Gofalwyr	Gwariant	132	Darparu cefnogaeth i ofalwyr, yn cynnwys gwasanaeth Ysbaid. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024 : Rhan amser : 1
Diogelwch Cymunedol	Gwariant Incwm	454 <u>(378)</u> <u>76</u>	Partneriaeth Statudol sydd yn hyrwyddo Diogelwch Cymunedol. Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024 : Llawn amser : 3
Cynlluniau Eraill	Gwariant	318	Yn cynnwys grantiau i'r Ganolfan Gyngori a mudiadau eraill nad ydynt mewn un maes penodol ynghyd â chyfraniadau i wahanol ddarpariaethau a chronfeydd canolog.
Arbedion i'w Darganfod	Gwariant	(647)	Targedau arbedion i'w dyrannu yn erbyn y gwasanaethau.
CYFANSWM GWASANAETHAU CANOLOG		<u><u>3,221</u></u>	

OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

		Cyllideb 2023/24 £'000	
GWASANAETHAU OEDOLION			
Rheolaeth Gwasanaeth Oedolion	Gwariant	458	Costau rheoli'r Gwasanaeth Oedolion.
			Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024 :
			Llawn amser : 6
GWASANAETHAU POBL HŶN AC ANABLEDD CORFFOROL			
Gweithwyr Maes	Gwariant	3,489	Costau Arweinyddion Tîm, Ymarferwyr Arweiniol, Gweithwyr Cymdeithasol, Therapyddion
	Incwm	<u>(191)</u>	Galwedigaethol ac Ymarferwyr Gwaith Cymdeithasol. Ariennir yn rhannol gan
		<u>3,298</u>	y Bwrdd Iechyd.
			Nifer o staff yng nghyllideb 2023/2024 :
			Llawn amser : 53
			Rhan amser : 21
GWASANAETH POBL HŶN			
Gofal Preswyl	Gwariant	24,349	Costau lleoliadau yn 11 Cartref Preswyl y Cyngor a nifer o gartrefi preswyl preifat,
	Incwm	<u>(9,279)</u>	net o gyfraniadau preswylwyr.
		<u>15,070</u>	
